22 Mawrth 2020

Llythyr at berchnogion llety

Annwyl berchennog,

Coronofeirws Covid-19

Fel y gwyddoch, rydym yn byw mewn cyfnod di-gynsail yn sgil Coronofeirws Covid-19 ac mae canllawiau clir wedi eu rhoi gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth Prydain bod yn rhaid i bobl ymbellhau yn gymdeithasol, hunan-ynysu a dim ond gwneud teithiau hanfodol.

Rwy'n llwyr werthfawrogi cyfraniad y sector twristiaeth i Wynedd, y cyfraniad economaidd o dros £1 biliwn i'r economi leol bob blwyddyn a'r ffaith eich bod yn cyflogi dros 16,000 o bobl, ond rydym mewn cyfnod o argyfwng byd-eang.

Er gwaetha'r cyngor sydd wedi ei roi gan ein Llywodraethau, mae'r niferoedd o ymwelwyr sydd wedi dod i'r ardal dros y dyddiau diwethaf yn creu pryder a siom eithriadol i mi. Felly, rwy'n erfyn arnoch i **gau** eich parc / gwersyll / llety gwyliau ar unwaith er mwyn osgoi lledaeniad y feirws ac i leihau'r effaith fydd ymwelwyr yn ei gael ar ein gwasanaethau iechyd a gofal sydd eisoes o dan bwysau eithriadol.

Fel a gyhoeddwyd ddydd Gwener, 20 Mawrth 2020, mae trefniadau cefnogi busnesau lletygarwch wrthi'n cael eu datblygu gan ein Llywodraethau ac mae'r Cyngor yn rhoi blaenoriaeth i ddarparu cyngor a chefnogaeth i fusnesau.

O ystyried canllawiau'r Llywodraethau, erfyniaf arnoch i gau **yn syth** er lles holl bobl Gwynedd a'n gwasanaethau iechyd. Bydd hyn yn ein galluogi i ganolbwyntio ar oresgyn y sefyllfa rydym yn ei wynebu ac i leihau'r risg i ni gyd. Trwy annog eich cwsmeriaid i aros gartref, byddwch yn helpu i'w gwarchod nhw, pobl Gwynedd a'n gwasanaethau iechyd a gofal hanfodol.

Os ydych chi eisoes wedi gweithredu ar y cyngor cenedlaethol ac wedi cau eich parc / gwersyll / llety gwyliau, neu yn y broses o gwblhau trefniadau i gau'r penwythnos yma, rydw i'n hynod ddiolchgar i chi am gymryd y penderfyniad cyfrifol yma.

Mae fy meddyliau gyda chi yn y cyfnod heriol ac anodd hwn, a bydd Cyngor Gwynedd yn ceisio ei orau i'ch cefnogi hyd yr eithaf.

Yr eiddoch yn gywir,

Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn

Arweinydd Cyngor Gwynedd

22 March 2020

A letter to accommodation owners

Dear Owner,

Coronovirus Covid-19

As you are aware, we are living in unprecedented times due to Coronovirus Covid-19. Clear guidelines have been issued by the Welsh and UK Governments that people should adhere to social-distancing, self-isolation and only undertake essential journeys.

I fully appreciate the contribution of the tourism sector to Gwynedd, the economic contribution of over £1 billion every year locally and the fact that you employ over 16,000 people, but we are in the midst of an world-wide emergency.

Despite the advice from our Governments; the numbers of visitors to Gwynedd over the last few days has been extremely worrying and disappointing. I therefore urge you to **close** your park / campsite / accommodation immediately so that we can stop the spread of the virus, and limit the impact of visitors on our health and care services locally which are already under considerable pressure.

As was announced on Friday, 20 March 2020, arrangements to support the hospitality industry are in the process of being developed by our Governments and the Council is also prioritising the work of providing advice and support to businesses.

In line with our Governments' guidelines, I urge you to **close immediately** for the sake of all the people of Gwynedd and our health and care services - so that we can focus on the exceptional situation that we are facing and reduce the risk for all of us. By encouraging your customers to stay at their main home address, you will be helping to protect them, the people of Gwynedd as well as our vital health and care services.

If you have already acted upon the national guidance to close your park / campsite / accommodation, or if you are in the process of doing so this weekend, I and extremely grateful to you for taking this responsible action.

My sincerest thoughts are with you at this difficult and challenging time, and Gwynedd Council will do its very best to support you.

Yours Sincerely,

Councillor Dyfrig Siencyn

Gwynedd Council Leader